# BWRDD PARTNERIAETH IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES GWYNEDD

Cofnodion cyfarfod 27ain Medi 2007 1:00 tan 2:30 yn Ystafell Fwrdd, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd, Eryldon, Caernarfon

Presennol: Craig Barton, Jo Charles, Clare Jones, Dafydd Lewis, Sioned Larsen, Dr Lyndon Miles (Cadeirydd), Cynghorydd Godfrey Northam, Cynghorydd Richard Parry Hughes, Cynghorydd John Wyn Williams, Gwen Carrington, Pat Billingham, Janet Roberts, Llinos Owen.

| | EITEM A DRAFODWYD AR Y RHAGLEN | Gweithred gan |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso ac ymddiheuriadau**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Barry Latham, Glanville Owen, Harry Thomas, Alwyn Rowlands, Nia Elis-Williams, Shan Lloyd Williams.<br><br>Croesawyd Janet Roberts fel cydlynydd Iechyd | |
| 2 | **Cofnodion cyfarfod 24/05/2007**<br><br>**Cywirdeb** - Nododd y Cadeirydd gam sillafu ym mhwynt 4b aros nid awr; 5a pob ac nid pobl. Pawb yn hapus gyda'r cofnodion.<br><br>**Materion yn codi** - Dywedodd Sioned Larsen (SL) bod Mantell Gwynedd wedi bod yn cynnal cyfweliadau plant a phobl ifanc (ariannwyd gan Cyngor Gwynedd) | |
| 3 | **Adroddiad y Cydlynydd**<br><br>Eglurodd Janet Roberts (JR) mai newydd oedd i'r swydd ac yn y cyfamser nid oedd ganddi unrhyw beth i'w gynnig. Diolchodd am y croeso. | |
| 4 | **Materion Strategol**<br>Holodd Dafydd P Lewis (DPL) am sefyllfa Ysbyty Blaenau Ffestiniog. Esboniodd Clare Jones (CJ) bod y Swyddfa Ranbarthol yn cwrdd â phobl leol i drafod y sefyllfa a bod angen adolygiad annibynnol i'r broses. Eglurodd yr angen am eglurder manylach o wasanaethau arfaethedig. Tybiwyd mai Michael Williams fuasai'n cyflawni'r adolygiad annibynnol. Nid oedd amserlen wedi ei gosod.<br><br>**Asesiad Anghenion**<br>Amlinellodd Jo Charles (JC) ei phryder y dylid cyfieithu'r ddogfen er mwyn sicrhau gwell defnydd ohoni. Rhaid symud ymlaen a than linellu materion dwyieithog. Pryder arall oedd na fuasai'r mapiau, a'r graffiau ar gael yn ddwyieithog - angen cysylltu â NHPS. Bwriad yr Asesiad yw ei blethu i'r strategaeth.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd os oedd y ddogfen yn un gyhoeddus. Cafwyd cytundeb i symud ymlaen gyda'r cyfieithiad. Y ddogfen i'w darlledu ar y we yn unig.<br>Angen datrys materion y gost o gyfieithu<br><br>Dim sylwadau pellach.<br><br>**Strategaeth Ddrafft**<br>Eglurodd CJ bod cyflawni'r dasg o gyflwyno strategaeth wedi bod yn sialens yng nghyd destun newidiadau staff. Er hynny, bydd y strategaeth yn mynd allan am ymgynghoriad ar 8.10.07.<br>Amlinellodd gefndir y strategaeth gan egluro bod angen cyflwyno strategaeth gryno gyda gweithredoedd posib. Wrth edrych yn ôl ar gyn strategaethau, amlinellodd bod y drefn yn debyg; yn gryno gyda neges glir. Cydnabodd bod angen mwy o waith arni gyda sylw penodol ar fudd y gymdeithas. Cadarnhaodd bod y strategaeth | DPL |

| | | |
|---|---|---|
| | eisoes wedi cael ei chydnabod gan yr LHB a'r Tîm Gofal Strategol. Bydd y gwaith yn parhau i gyflawni strategaeth derfynol.<br><br>Cydnabuwyd DPL waith caled CJ a bod y Bartneriaeth yn datgan eu cymeradwyaeth. Esboniodd DPL bod ymgynghoriad gyda Thîm Rheoli'r Cyngor yn parhau er mwyn datblygu'r strategaeth yn llawn. Angen mwy o waith ar y cyd i gynnal cydbwysedd rhwng iechyd a lles o fewn y strategaeth<br><br>Barn gyffredinol JC ar y strategaeth oedd bod un Môn yn drwm ar wasanaethau. Amlygodd DPL ei farn bod angen mwy o bwyslais ar lês; Gwen Carrington (GC) bod angen ehangu mwy ar y gwasanaethau craidd.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd os oedd y ddogfen yn ddigon da i gael ymgynghoriad.<br><br>Trafodwyd y strategaeth mewn manylder.<br><br><u>Rhagair:</u><br>Rhan 1:<br>Rhan 2:<br>Rhan 3: Sylw cyffredinol (tud 13) gan DPL bod angen ychwanegu mwy o wybodaeth yng nghyd destun plant a phobl ifanc.<br>Angen tynnu manylion o'r asesiad a'u cynnwys yn y strategaeth<br>Cyfeiriad at anghydraddoldeb trefol a gwledig - angen llinell ychwanegol yma.<br>Rhan 4: Angen gwaith ychwanegol i gyfeirio at elfennau amgylcheddol, addysgiadol.<br>Angen ymestyn y frawddeg ar y bartneriaeth Tai – hwn yn gyffredinol iawn.<br>Rhan 5: Gôr bwyslais yma ar strategaeth Cynllun Gwasanaeth Cymunedol ond dim digon o wybodaeth am ei chefndir, e.e., strwythur, rheolaeth cleifion ayyb. Mynegodd RPH ei bryder nad oedd y Gwasanaethau Iechyd yn gweld ei hun yn rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Rhaid cynnwys yn y strategaeth, gynllun i wrando ar y cyhoedd; eu pryder am restrau aros, dim meddygon ar gael. Eglurodd CJ bod hyn yn cael ei adolygu dros Brydain Fawr a bod cynllun megis ehangu amseroedd agor yn cael ei gyflwyno. Ychwanegodd JC gan ddweud bod gwasanaethau ar gael ond gellir esbonio mwy - mae cynllun ymestyn oriau ar gael.<br><br>Cadarnhaodd y cadeirydd bod problemau yma ac y dylid wynebu'r materion hyn.<br>RPH yn gofyn am gyplysiad iechyd ac ysgolion - cyfle yma i gryfhau partneriaeth e.e., tîm lles mewn ysgol yn amlygu problemau yn gynt.<br>Cadeirydd yn amlinellu y gellir cynnwys paragraff yma i esbonio 'r weledigaeth o gryfhau dolen gydag ysgolion.<br>Atodiad:<br>Holiadur: cytuno/anghytuno?<br>Mynegodd y cadeirydd ei bryder o ddefnyddio graddau (rating scales).<br>Sylwadau yn<br>unig yn ddigonol.<br>Diddymu cwestiwn 13<br>Angen mwy o le/wahoddiad am sylwadau<br><br>Wedi'r ymgynghoriad rhaid cyflawni'r newidiadau perthnasol, ystyried sylwadau a chreu strategaeth derfynol.<br><br>Cymeradwywyd y ddogfen drafft. | Janet a Clare i weithredu'r newidiadau cyn 08.10.07 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddiad Blynyddol**<br>Eglurodd y cadeirydd bod yr adroddiad eisoes wedi mynd i mewn.<br>Sylwadau?<br>Mynegodd CB bod y ddogfen yn un dechnegol ac nid yw'n adlewyrchu'r gwaith caled sydd wedi ei wneud.. Mae'n adroddiad gyda digon o fewnbwn, ond nid yw'n dehongli gwelliannau.<br><br>Derbyniwyd yr adroddiad.<br><br>**Asesiad Anghenion**<br>Darren Griffiths - cyflawni'r ymgynghoriad cam 2 diwedd Hydref - angen plethu hyn gyda'r strategaeth. | |
| 5 | **Llywodraethiad.**<br>Cytuno dwy flaenoriaeth<br>Grŵp Llywio Gwynedd ar y cyd<br>Grŵp Craidd/Prif Weithredwr - Gwasanaeth Iechyd a Llês. Newid Hinsawdd | |
| 6 | **Cynllun Gwasanaethau yn y Gymuned**<br>Datblygu dau gynllun ar wahân (Gwynedd a Môn) dau grŵp yn dod at eu gilydd i drefnu hyfforddiant a chynllun gweithlu. Proses araf. | |
| 7 | **Grŵp Swyddogion Arweiniol**<br>**Cofnodion**<br>Dim sylwadau | |
| 8 | **Unrhyw fater arall**<br>Ar ran y Bwrdd, amlygodd y cadeirydd ei werthfawrogiad i Shan Lloyd Williams am ei gwaith dros y 3 blynedd diwethaf a dymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd. | |
| | **Cyfarfod Nesaf**<br><br>**Dyddiad:** 24.01.2008<br>**Amser:** 2:00 – 4:30pm<br>**Lleoliad:** Glyder Fawr, Cyngor Gwynedd, Safle Penrallt, Caernarfon. | |